Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

17 Gorffennaf 2023

Llythyr Diwedd Tymor

Mae'n anodd credu fod chwe mis wedi bod ers i mi ddechrau ym Mhlasmawr. Rhaid i mi ddiolch i'r holl staff a disgyblion sydd wedi cydweithio i wneud y tymhorau diwethaf mor llwyddiannus. Nid yw'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai tawel gyda gweithgareddau amrywiol fel sioe'r ysgol, cyngerdd cerddorol, alldeithiau gwobr Dug Caeredin ac ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol amrywiol yn llenwi bob wythnos. Ar eich rhan chi hoffwn ddiolch i'r holl staff sydd wedi rhoi o'u hamser trwy'r flwyddyn i sicrhau bod cymaint o gyfleoedd allgyrsiol ar gael i ddisgyblion.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor hoffwn rannu gwybodaeth gyda chi am drefniadau dros y misoedd nesaf ac ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

Trefniadau diwedd tymor

Mae'n arferol i'r ysgol cau yn gynharach ar ddiwrnod olaf y tymor ac eleni bydd y dydd ysgol yn gorffen am 12.30yp ar ddydd Gwener. Bydd cinio ar gael yn yr ysgol rhwng 11.50yb a 12.20yp wedyn bydd y bysiau ysgol arferol yn casglu disgyblion am 12.30yp.

Newidiadau Staffio

Bydd rhai staff yn ein gadael ni ar ddiwedd y tymor. Wrth i ni gyrraedd ein chwarter canrif fel ysgol gweld rhai staff sydd wedi bod gyda ni am amser hir yn ymddeol a dymunwn y gorau i Dr Dyfrig Thomas, Mr Alan Davies, Mrs Fiona Harries a Mr Kevin Griffiths yn eu hymddeoliadau.

Mae rhai athrawon sydd wedi ymuno gyda ni yn fwy diweddar yn symud ymlaen i swyddi newydd a dymunwn y gorau i Mr Rhufon Cockwell, Mr Nerys Griffiths-Jones, Mr Matthew Hutchinson a Mrs Sara Howells yn eu swyddi newydd.

Mae ein hadran cynnydd (Bloc-M) wedi elwa o brofiad ac ymrwymiad nifer o staff sy'n ein gadael ni eleni gan gynnwys Mrs Lowri White, Mrs Annette Thomas, Mrs Cathryn Brynach a Mrs Amelia Ferguson yn ogystal â nifer o gynorthwywyr sydd wedi gweithio gyda ni am flwyddyn. Mae Miss Manon Evans wedi bod yn gweithio i gynorthwyo disgyblion sy'n methu'r ysgol eleni a diolch iddi am ei gwaith gyda disgyblion ni ond hefyd disgyblion Glantaf a Bro Edern dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i ddisgyblion yr ysgol.

Mae un wyneb cyfarwydd i ddisgyblion a rhieni yn ein gadael ni eleni gyda Mrs Lisa Evans yn gadael ein swyddfa. Bydd hwn yn golled fawr i'r ysgol ond dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.

Edrychwn ymlaen at groesawu nifer o staff newydd mis Medi a byddaf yn eu cyflwyno i chi ar ddechrau'r tymor.

Pennaeth / Headteacher
-
Dr Rhodri Thomas

Ffordd Pentrebaen, Y Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3PZ
-
Pentrebane Road, Fairwater, Cardiff, CF5 3PZ

029 20405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
ysgolplasmawr.cymru

Canlyniadau arholiadau

Bydd canlyniadau arholiadau TGAU yn cael eu cyhoeddi ar ddydd Iau, 24ain o Awst, gyda chanlyniadau safon uwch ac uwch gyfrannol ar ddydd Iau, 17eg o Awst. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu yn yr ysgol. Bydd trefniadau'r dydd, yn ogystal â manylion y gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion blwyddyn 11-13, yn cael eu rhannu gyda'r blynyddoedd perthnasol cyn diwedd yr wythnos.

Adroddiadau diwedd blwyddyn

Fe fyddwn yn cyhoeddi adroddiad diwedd blwyddyn eich plentyn ar yr app, 'edulink' cyn diwedd yr wythnos. Cofiwch gysylltu gyda'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol os ydych am drafod cynnwys yr adroddiad neu os oes gwall y gallwn ei gywiro.

Digwyddiadau dros yr haf

Dros yr haf bydd y timoedd rygbi yn dechrau eu hymarferion ar yr 22ain o Awst gyda gemau yn dechrau ar 31ain o Awst (Bl7&8) a'r 1af o Fedi (Bl9&10) ac mae manylion yn yr atodiadau.

Paratoi am y flwyddyn nesaf

Gwisg ysgol a gwisg addysg gorfforol: Bydd disgwyl i bob plentyn gadw at reolau'r wisg ysgol a'r wisg addysg gorfforol ym mis Medi, felly peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr cyn archebu eitemau newydd trwy ein cyflenwyr YC Sports dros gyfnod yr haf. Mae eitemau cyffredinol fel trowsus a sgertiau ar gael trwy amrywiaeth o ddarparwyr eraill.
https://www.ycsports.com/School-uniform/My-School/Plasmawr
Cofiwch fod grant ar gael drwy'r Awdurdod Lleol ar gyfer gwisg ysgol. Mae'r cyswllt ar gyfer ffurflen gais ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol (gwisg ysgol) isod.
Grant Hanfodion Ysgol (Grant Datblygu Disgyblion yn Flaenorol) (cardiff.gov.uk)

Offer: Allwch chi os gwelwch yn dda sicrhau fod gan eich plentyn gâs pensiliau llawn adnoddau ysgol arferol ar gyfer mis Medi? Mae'n syndod faint o blant sydd yn cyrraedd yr ysgol yn ddyddiol heb yr offer angenrheidiol i fedru cyflawni gwaith ysgol. Diolch yn fawr.

Gemwaith ac ewinedd ffug: A fyddech cystal ag atgoffa eich plentyn am reol 'dim gemwaith' na ewinedd ffug yr ysgol? Parhewch i wirio eich plentyn yn y bore cyn iddynt adael am yr ysgol i sicrhau nad ydynt yn gwisgo gemwaith i'r ysgol. Yr amser delfrydol i ddisgyblion gael tyllau yn eu clustiau yw ar gychwyn gwyliau'r haf er mwyn i'r tyllau wella mewn pryd ar gyfer cychwyn tymor yr hydref.

Dechrau'r flwyddyn nesaf

Bydd yr ysgol yn agor i ddisgyblion blwyddyn 7 a blwyddyn 12 ar ddydd Mercher, 6ed o Fedi. Bydd disgyblion eraill yn dychwelyd ar ddydd Iau, 7fed o Fedi. Ni does newid i amseroedd dechrau a gorffen y dydd ysgol felly gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod disgyblion yn yr ysgol erbyn 8.45yb pob dydd. Os oes gennych gwestiynau am fysiau ysgol gallwch gysylltu gyda'r adran drafnidiaeth ac mae'r holl fanylion ar gael ar wefan y sir: Trafnidiaeth Ysgol (cardiff.gov.uk).

Dymunaf y gorau i bawb dros yr haf a gobeithiaf caiff disgyblion a'u teuluoedd cyfle i ymlacio rhywfaint. Edrychaf ymlaen at groesawu pawb nol mis Medi yn ddiogel a barod ar gyfer y flwyddyn newydd.

Yr eiddoch yn gywir



Dr Rhodri Thomas
Pennaeth

End of Term Letter

It is hard to believe that it has been six months since I started in Plasmawr. I must thank all the staff and pupils who have worked together to make the last two terms so successful. The last few weeks have not been quiet ones with various activities such as the school show, a musical concert, Duke of Edinburgh award expeditions and visits and various extracurricular activities filling every week. On your behalf I would like to thank all the staff who have given their time throughout the year to ensure that there are so many extra-curricular opportunities available to pupils.

As we approach the end of term I would like to share information with you about arrangements over the coming weeks and at the start of the new school year.

End of term arrangements

It is usual for the school to close earlier on the last day of term and this year the school day will end at 12.30pm on Friday. Lunch will be available at the school between 11.50am and 12.20pm then the usual school buses will collect pupils at 12.30pm.

Staff changes

Some staff will be leaving us at the end of the term. As we reach our quarter of a century as a school we will see some staff who have been with us for a long time retiring and we wish the best to Dr Dyfrig Thomas, Mr Alan Davies, Mrs Fiona Harries and Mr Kevin Griffiths in their retirements.

Some teachers who have joined us more recently are moving on to new positions and we wish the best to Mr Rhufon Cockwell, Mr Nerys Griffiths-Jones, Mr Matthew Hutchinson and Mrs Sara Howells in their new positions.

Our progress department (Bloc-M) has benefited from the experience and commitment of a number of staff who are leaving us this year including Mrs Lowri White, Mrs Annette Thomas, Mrs Cathryn Brynach and Mrs Amelia Ferguson as well as a number of teaching assistants who have work with us for a year. Miss Manon Evans has been working this year to help pupils who miss school and I thank her for her work with our pupils but also those of Glantaf and Bro Edern over the past year. Thank you to all of them for their valuable contributions to the school's pupils.

One familiar face to pupils and parents is leaving us this year with Mrs Lisa Evans leaving our office. This will be a great loss for the school but we wish her the best in her new position.

We look forward to welcoming a number of new staff in September and I will introduce them to you at the start of the term.

Exam results

GCSE exam results will be published on Thursday, 24th August, with A-level and AS results on Thursday, 17th August. These will be distributed in the school.
The arrangements for these days, as well as details of the support available to year 11-13 pupils, will be shared with the relevant years before the end of the week.

Events over the summer

Over the summer the rugby teams will start their training on the 22nd of August with games starting on the 31st of August (Yr7&8) and the 1st of September (Yr9&10) and details are in the attachments.

End of year reports

End of year reports will be published before the end of the week on the app, 'edulink'. Please contact the appropriate Head of Year if you would like to discuss any aspect of the report or if there is an error that we can easily amend.

Preparing for next year

School uniform and PE kit: *Please remember to order new items of school uniform and PE kit from YC Sports in readiness for September. Non-branded items such as trousers or skirts are also available from a range of suppliers.*
https://www.ycsports.com/School-uniform/My-School/Plasmawr

School Essentials Grants (previously pupil development grant or school uniform grant) for school uniform and equipment are available through the Local Authority. The application form for the grant is available by following the link below.
School Essentials Grant (previously Pupil Development Grant) (cardiff.gov.uk)

Pencil case and basic school work equipment: *Please could you ensure that your child has a pencil case filled with all the basic equipment suitable for school work in September? It is surprising how many children arrive in school daily without a school bag or pencil case! Thank you.*

Jewellery and false / acrylic nails: *Could you please continue to remind your child of our 'no jewellery' and no acrylic nails rule? Please continue to check that your child is not wearing jewellery as he or she leaves for school in the morning. The best time to have your child's ears pierced is at the beginning of the summer holiday, allowing time for their ears to heal by September.*

Start of the next school year

The school will open for year 7 and year 12 pupils on Wednesday, 6th September. Other pupils will return on Thursday, 7th September. There is no change to the start and end times of the school day so we kindly ask you to ensure that pupils are at school by 8.45am every day. If you have questions about school buses you can contact the transport department and all the details are available on the county's website: School transport (cardiff.gov.uk)

I wish everyone the best over the summer and I hope pupils and their families have a chance to relax. I look forward to welcoming everyone back in September safe and ready for the new year.
Yours sincerely

Dr Rhodri Thomas
Headteacher